**Cynllun Marcio Uned 6 Haf 2018**

**ADRAN A – Gwerthfawrogi Llenyddiaeth**

**Nadolig 1966**

- Y bardd yn agor y **gerdd vers libre** drwy **gwestiynu** a fydd y gwir Nadolig a'i ysbryd da yn cyrraedd Durham ym 1966. Mae'r **cwestiwn cyntaf sydd ar wahân** yn gosod y naws i'r gerdd. *'A ddaw'r Nadolig i Ddurham, A gofir yno'r Oen dinam?'*

- Ceir dilyniant o atebion a roddwyd ar raglen deledu yn 1966 yn cyfiawnhau peidio ag agor siop elusen er mwyn helpu'r rhai llai ffodus. Pwysleisir gwedd fasnachol yr ŵyl sef ei bod yn hanfodol i bawb dalu trethi ac nad oes lle i gardotwyr. Rhoddir pwyslais ar ariangarwch a busnes - *'Ond i bobol dalu trethi 'dych chi'n deall, ynte?' 'Adeg busnes ydi dechra' Rhagfyr yma'.* Cyflëir pa mor ddidostur yw cymdeithas.
- Defnyddio **odli** a **rhythmau'r iaith lafar** *'bod yn ffeind,' 'dych chi'n deall, ynte?' 'wn –i-ddim-ble'* yn effeithiol wrth gymeriadu.
- Yng nghanol yr **ymatebion negyddol** hyn mae'r bardd yn holi a ddylem gyfrannu tuag at y tlawd a'r newynog a cheir **geirfa goeth**, **cyflythrennu** ac **odl gyrch** i bwysleisio

  *'Oni chredwch chi fod yr amser hwn*
  *Yn adeg i geisio ysgafnu pwn*
  *Y sawl sy'n llwythog, neu'n adeg i roi*
  *I'r noeth a'r newynog?'*

- Yn yr atebion sy'n dilyn pwysleisir materoliaeth a hunanoldeb dyn a'r ffaith nad yw'n briodol yn y byd modern i sôn am ewyllys da. Cyflëir dirywiad cymdeithas a'i chydwybod. Does dim lle i frawdgarwch ym mwrlwm byd busnes.

  *'Rydw i'n ddigon bodlon i bawb fod yn hael*
  *Ond i hynny beidio â bod ar fy nhraul*
  *I.'*

  Sylwer ar arwyddocâd y **rhagenw** 'I' fawr mewn **llinell ar ei phen ei hun**. Ymddengys yma nad oes gan bobl gydwybod.

- Parhau i watwar a wna'r bardd gan bwysleisio'r rhagrith. Sylwer ar y defnydd o **dafodiaith** ac o **eiriau benthyg** sy'n cyfleu'r diffyg urddas '*blydi grêt*,' '*owt of det'*. Gellir awgrymu bod yr **iaith sathredig** yn cyfleu agwedd y bardd tuag atynt. Ceir yma **ddychan, cynnil.**
- Ceir darlun yn ail ran y gerdd o'r bugeiliaid a'r doethion yn dod i Fethlehem i addoli'r baban Iesu. Mae'r **gyfeiriadaeth Feiblaidd** yn newid **naws y gerdd** yn llwyr a cheir darlun o wir ystyr y Nadolig yma. Dyma **gyfosod dau gyfnod** sy'n effeithiol i bigo'n cydwybod.
- Mae **rhythm y dweud yn arafach** a cheir cyfle i fyfyrio ar ryfeddod y geni gyda'r pwyslais ar oleuni'r nef. Mae'r **arddull Feiblaidd a'r dyfyniadau Beiblaidd** yn **cyferbynnu'n llwyr** â'r dyfyniadau blaenorol: *'angel yr Arglwydd', 'gogoniant yr Arglwydd', 'gwelsom ei seren Ef'.*
- Mae'r pwyslais ar y **rhagenw** *'EF'* a gaiff ei **ailadrodd** yn **cyferbynnu'n briodol** gyda'r **rhagenw** *'I'* ynghynt.
- Yn rhan olaf y gerdd mae'r bardd yn gofyn faint o ddylanwad gafodd geni'r baban ar y byd: *'A ddisgleiriwyd y nos gan ei seren Ef?'* Sylwer ar y defnydd o **ferfau amhersonol** *'llathrwyd', 'disgleiriwyd'*, sy'n cyfrannu at yr ieithwedd ffurfiol.



© WJEC CBAC Cyf.

- Ceir ateb wrth gyfeirio at y croeshoeliad a gaiff ei **ddelweddu** gan *'dywyllwch', 'hoelion' a 'gwaed'*. Gwêl y bardd y gymdeithas mewn tywyllwch, gair a gaiff ei **ailadrodd** i bwrpas. Mae'r **ddelwedd** hon o Grist ar y groes yn effeithiol ac awgrymir bod cymdeithas wedi anghofio am ei aberth drosom. Defnyddir **berfenwau** *'hongian' a 'lladd',* a geiriau megis *'hoelion', 'gwlyb' a 'gwaed'* i bwrpas.
- Cwestiynu eto a wna'r bardd gan **ailadrodd** wrth ofyn a fu felly oleuni ar ôl i Grist farw drosom: *'Ond oni fu felly eni? Oni fu felly oleuni?'* Ceir **cyferbyniad** amlwg rhwng goleuni a thywyllwch y sefyllfa. Defnyddir *'goleuni'* a *'geni'* fel **symbol** o obaith.
- Mae'r bardd yn y clo fel petai'n ymbil ar y Fam Fair; '*O Fair fam'*. Dychwelir eto i gwestiynu sy'n cyfleu ansicrwydd y bardd. Nid yw'r amheuon ar ddechrau'r gerdd wedi eu datrys. Tybed a yw'n anobeithio fod cymdeithas wedi colli'i chrefydd? Yr awgrym yn y gerdd yw nad yw geni'r baban wedi dylanwadu ar wŷr busnes Durham, neu nad oes ewyllys da yn eu calonnau. Eto mae **ailadrodd** y ferf *'daw'* a'r **cymeriad geiriol** *'A'* yn pwysleisio difrifoldeb y cwestiwn ond efallai'n awgrymu y gall hyn ddigwydd.
- Dengys y bardd pa mor faterol a hunanol ydym ni gan **gyferbynnu'n** bennaf rhwng gwir reswm y Nadolig a'r modd yr ydym yn ecsploetio'r ŵyl. Does dim brawdoliaeth yma - '*'Does 'na ddim lle'* i'n cyd-ddyn sydd angen cymorth.

**Synoptig**
**Gellir cydio mewn agweddau o ran themâu megis:**

Hunanoldeb cymdeithas
Rhagrith cymdeithasol
Pigo cydwybod
Dirywiad moesau cymdeithasol
Crefydd
Cyd-ddyn



© WJEC CBAC Cyf.

